**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/592/21

Holl Aelodau'r Senedd

24 Medi 2021

Annwyl Aelodau,

Rwy'n ysgrifennu atoch i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer newid amserlen mis Rhagfyr 2022.

Amgaeaf lythyr oddi wrth James Price, prif weithredwr Trafnidiaeth Cymru, am yr effaith y mae'r pandemig Covid-19 yn parhau i'w chael ar ein cynlluniau ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau.

Yn gywir,

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Lee Waters AS

PSDMCC@gov.wales

16 Medi 2021

Annwyl Weinidog

Rwy'n ysgrifennu i'ch diweddaru am gynlluniau Trafnidiaeth Cymru ar gyfer newid amserlen Rhagfyr 2022.

Rwy'n awyddus i fod yn onest ac yn glir gyda chi mor gynnar â phosibl a thynnu sylw at rai o'r anawsterau yr ydym wedi'u hwynebu dros 18 mis diwethaf y Pandemig a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ein cynlluniau. Mae Covid wedi cael effaith enfawr ar ein holl weithgareddau a chynlluniau, fel y cafodd wrth gwrs ar bob sector arall. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni addasu ein cynllun gwella amserlen i adlewyrchu'r effeithiau Covid hyn. Nid yw hon yn sefyllfa unigryw i Gymru, ac mae diwydiant rheilffyrdd cyfan y DU yn wynebu'r un heriau.

Pan drosgwlyddwyd masnachfraint Cymru a'r Gororau ym mis Mehefin 2018, cynlluniwyd newid amserlen Rhagfyr 2022 i fod yn bwynt tyngedfennol pan fyddai'r cerbydau a'r gwasanaethau newydd yn cael eu darparu y tu allan i ardal Metro De Cymru.

Y cynllun oedd sicrhau bod y gwasanaethau ychwanegol canlynol yn cael eu darparu ar yr un pryd ym mis Rhagfyr 2022, ynghyd â chyflwyno trenau CAF newydd sbon bryd hynny hefyd:

- Caerdydd - Cheltenham - Gwasanaeth cyson un trên yr awr yn galw ym mhob gorsaf
- Llinell Calon Cymru - Un gwasanaeth ychwanegol y dydd yn galw ym mhob gorsaf
- Aberystwyth - Amwythig - Gwasanaeth cyson un trên yr awr yn galw ym mhob gorsaf
- Lerpwl - Caerdydd - Gwasanaeth newydd bob dwy awr, gyda gwasanaeth bob awr rhwng Amwythig a Lerpwl
- Lerpwl - Llandudno - Gwasanaeth newydd bob awr
- Maes Awyr Manceinion - Bangor - Estyniad i wasanaeth presennol Llandudno - Maes Awyr Manceinion.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Network Rail a chydweithwyr ehangach yn y diwydiant rheilffyrdd i ddatblygu a chyflawni'r gwelliannau hyn fel rhan o "Grŵp Llywio Digwyddiad". Yn sgil y cydweithio, daeth yn amlwg bod pandemig Covid wedi cael effaith eang ar gadwyni cyflenwi, y gallu i ddarparu seilwaith Network Rail

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

i alluogi'r gwasanaethau newydd a'r gallu i hyfforddi criw trenau (oherwydd yr ôl-groniad a achosir gan ataliadau Covid). Bydd y pandemig yn cael effeithiau parhaus ar yr holl ffactorau hyn ac o ganlyniad, mae angen ailystyried sut a phryd i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn.

Er ein bod yn gwbl ymrwymedig i weithio ar y cyd â'n partneriaid yn Network Rail fel rhan o'r 'grŵp llywio digwyddiad', mae'n rhaid i ni godi'r pwynt bod cyflawni'r cynllun hwn yn amodol ar Network Rail yn cael y cyllid angenrheidiol gan lywodraeth y DU. Mae'n rhaid cael y cyllid hwn er mwyn gallu mynd at i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith a chyflawni'r gwelliannau i'r amserlen yn unol â'r cynllun hwn. Er ein bod yn gweithio ar y cyd â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth, mae'r cyllid a'r ymrwymiad i gyflawni hwn yn parhau i fod yn ddyledus.

Mae Trafnidiaeth Cymru bellach yn arwain y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru i ddarparu cynllun cadarn ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau ychwanegol fel a ganlyn:

- O fis Rhagfyr 2022 rhoi ar waith:
    - Caerdydd - Cheltenham - Gwasanaeth cyson un trên yr awr yn galw ym mhob gorsaf
    - Llinell Calon Cymru - Un gwasanaeth ychwanegol y dydd yn galw ym mhob gorsaf
- O fis Rhagfyr 2023 rhoi ar waith:
    - Lerpwl - Llandudno - Gwasanaeth newydd bob awr
    - Maes Awyr Manceinion - Bangor - Estyniad i wasanaeth presennol Llandudno - Maes Awyr Manceinion.
    - Y gwasanaeth Casnewydd i Cross Keys newydd i ymestyn i Glyn Ebwy
- O fis Mai 2024 rhoi ar waith:
    - Aberystwyth - Amwythig - Gwasanaeth cyson un trên yr awr yn galw ym mhob gorsaf
- O fis Rhagfyr 2024 rhoi ar waith:
    - Lerpwl - Caerdydd - Gwasanaeth newydd bob dwy awr, gyda gwasanaeth bob awr rhwng Amwythig a Lerpwl
- Rhoi trenau CAF newydd sbon ar waith gan eu bod ar gael i'w defnyddio, gan ddisodli'r trenau presennol yn hytrach nag aros nes bod y gwasanaethau ychwanegol ar waith.

Yn ogystal, rydym hefyd yn wynebu rhywfaint o oedi wrth ddosbarthu cerbydau newydd a fydd yn effeithio ar ein gallu i ddarparu rhai gwasanaethau ac mae'n sbardun pellach sy'n gofyn am raglen ddiwygiedig.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Rwy'n gwerthfawrogi y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn achosi i wasanaethau ychwanegol gael eu rhoi ar waith yn hwyrach na'r disgwyl a byddaf yn eich sicrhau y byddwn yn gweithio'n galed i gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn gynt lle bynnag y bo modd.  Mae'n hanfodol nodi y byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau ond yn anffodus, ychydig yn hwyrach na ddymunwyd.

Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y diwydiant rheilffyrdd wedi cydweithio, er gwaethaf heriau pandemig Covid, i baratoi cynnig diwygiedig sy'n gadarn ac y mae modd ei gyflawni, a gallwn ymrwymo i'r canlynol:

- Metro De Cymru - Rydym yn buddsoddi tri chwarter biliwn o bunnoedd i uwchraddio'r rheilffyrdd i Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymney a Threherbert, ac yn ddiweddar, gosodwyd y sylfeini ar gyfer Cyfarpar Llinellau Uwchben (OLE) cyntaf.
- Gogledd Cymru - Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar gamau cychwynnol Metro Gogledd Cymru, gan roi'r sylfeini yn eu lle ar gyfer gwasanaethau trawsnewidiol rheilffyrdd a bysiau a theithio llesol, ac rydym wedi lansio ein gwasanaeth newydd o Lerpwl i Wrecsam trwy'r Halton Curve, gan wella cysylltiadau rhwng Lerpwl a Gogledd Cymru.
- Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru - Yn ddiweddar rydym wedi cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer datblygu Metro, ac er ein bod yn dal i fod yn y camau cynnar o'r prosiect, mae'r ymgynghoriad bellach wedi'i gwblhau ac mae'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.
- Mawrth 21 - Fe wnaethom agor ein gorsaf TrC newydd sbon gyntaf yn Bow Street, yng Ngheredigion
- Rhag 22 - Cyflwyno mwy o Wasanaethau Premiere o Orllewin Cymru i Fanceinion o ganlyniad i brynu cerbydau ansawdd uchel ychwanegol.
- Erbyn haf 23 - Cyflwyno dosbarth teithio llesol class 153 ar hyd Rheilffordd Calon Cymru

Rydym wrthi'n datblygu cynllun ymgynghori â rhanddeiliaid fydd yn amlinellu sut y byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â chwsmeriaid a grwpiau cynrychioladol ynghylch manylion y cynlluniau newydd.  Byddwn wrth gwrs yn fwy na hapus i gwrdd â chi i drafod y manylion hyn ymhellach.

Hoffwn ymddiheuro am yr oedi sydd wedi digwydd.  Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau'n llwyr bod y tîm cyfan (gan gynnwys llawer y tu allan i TrC) yn canolbwyntio'n llawn ar gyflawni'r gwelliannau hyn a rhai eraill cyn gynted â phosibl.

Yr eiddoch yn gywir

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive